

Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty

Adenoidectomi

Cyngor i gleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn Adenoidectomi

Gweithgareddau dydd i ddydd

Ar ôl y llawdriniaeth, mae'n bwysig gorffwys ac osgoi unrhyw ymdrech neu godi pwysau trwm a allai arwain at waedu. Bydd angen i chi / eich plentyn gymryd 1 wythnos i ffwrdd o'r gwaith neu'r ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn mae'n bwysig cadw draw o leoedd gorlawn er mwyn ceisio sicrhau nad ydych yn dal haint gan bobl eraill cyn i'r trwyn wella. Mae hefyd yn bwysig osgoi amgylcheddau myglyd neu lychlyd ar ôl y llawdriniaeth er mwyn atal heintiau, a pheidio â chwythu'r trwyn gan y gall hyn arwain at waedu. Am y 2 wythnos gyntaf ar ôl y llawdriniaeth, argymhellir osgoi bwyd / diodydd poeth ac osgoi bath / cawod poeth iawn, oherwydd gallai'r gwres o'r stêm achosi i'r trwyn ddechrau gwaedu. Mae tymereddau oerach yn dderbyniol.

Poen

Mae'n normal cael rhywfaint o boen ac anghysur ar ôl y llawdriniaeth. Mae cyffuriau lladd poen syml fel paracetamol ac ibuprofen yn addas a bydd eich nyrs yn mynd drwy hyn gyda chi cyn eich rhyddhau. Ar ôl y llawdriniaeth, efallai y bydd y trwyn yn cael ei rwystro oherwydd chwyddo, ond dylai hyn setlo ymhen ychydig wythnosau. Gall hyn wneud i'ch llais swnio'n drwynol, neu gall hylifau ail godi yn y trwyn. Dylai hyn wella hefyd.

Gwaedu

Os ydych chi / eich plentyn yn dechrau gwaedu o'r trwyn neu i'r gwddf, rhai pethau syml y gellir eu gwneud yw sugno ar giwbiau iâ neu binsio blaen y trwyn. Fodd bynnag, os oes gwaed ffres parhaus yn ymddangos, fe'ch cynghorir i fynd yn syth i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Efallai y bydd angen aros yn yr ysbyty dros nos er mwyn i chi gael eich arsylwi, ac yn achlysurol iawn efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach er mwyn atal y gwaedu.

Camau Dilynol:

Bydd eich llawfeddyg yn rhoi gwybod i chi os oes angen apwyntiad dilynol arnoch.

GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY

Os bydd angen cyngor brys arnoch dylech gysylltu

09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):
Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion): Ward C0 01633 493926 neu 01633 493922.

Wedi 17:00/dros nos (plant): Ward C1 01633493609

Mewn argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf